

Adolygiad o drefniadau rheoli risg corfforaethol Cyngor Sir Penfro

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Cipolwg ar yr archwilio	4
Adroddiad manwl – ein canfyddiadau	5
Nodi risgiau	5
Rheoli risgiau	6
Monitro ac adrodd ar risgiau	7
Adolygu ei drefniadau	8
Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor	9
Atodiadau	
Atodiad 1 – Cwmpas a dulliau	11
Atodiad 2 – Cwestiynau a meini prawf archwilio	12

Adroddiad cryno

Cipolwg ar yr archwiliad

Yr hyn y gwnaethom edrych arno

Rheoli risg ar gyfer llywodraeth leol yw'r broses o nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion strategol cynghorau¹. Yn yr adolygiad hwn, edrychwyd ar a yw trefniadau rheoli risg corfforaethol Cyngor Sir Penfro yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol. Mae hyn yn cynnwys nodi, rheoli, monitro ac adrodd ar risg. Ni wnaethom edrych ar reoli risg ar lefel adrannol neu brosiect.

Pam mae hyn yn bwysig

Mae rheoli risg effeithiol mewn llywodraeth leol yn bwysig gan y gall helpu i wella cynllunio strategol a blaenoriaethu, sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau, a bod cynghorau yn gallu cyflawni eu hamcanion strategol. Heb drefniadau rheoli risg effeithiol, gallai cyngor golli cyfleoedd i wella canlyniadau i'w drigolion. Dylai rheoli risg effeithiol helpu cynghorau i ymateb mewn ffordd ystwyth i'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae rheoli risg yn 'rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth, ac yn rhan sylfaenol o'r trefniadau i alluogi sefydliad i gael ei gyfeirio, ei reoli'n dda ac yn briodol ar bob lefel'.²

Yr hyn rydym wedi'i ganfod

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau rheoli risg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ganddo fframwaith rheoli risg cyfredol a diwylliant cadarnhaol sy'n cefnogi rheoli risg. Fe wnaethom ganfod rhai meysydd i'w gwella a fyddai'n helpu i gryfhau trefniadau rheoli risg y Cyngor ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys deall a defnyddio lefelau parodrwydd i dderbyn a goddef risg, sefydlu meini prawf cliriach ar gyfer pennu cynnydd ac isgyfeirio risg a gwella natur gynhwysfawr adrodd.

Yr hyn rydym yn ei argymhell

Gwnaethom bedwar argymhelliad gyda'r nod o wella trefniadau rheoli risg y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys nodi, rheoli, monitro ac adrodd ar risg, yn ogystal â gwerthusiad y Cyngor o'i drefniadau.

¹ O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gynghorau yng Nghymru osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Ar gyfer y rhan fwyaf o gynghorau mae'r rhain bellach yn cael eu mabwysiadu fel amcanion strategol y sefydliad.

² Llywodraeth y DU (2023) Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau rheoli risg, ond mae gan rai meysydd le i wella i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol yn well

Nodi risgiau

Nodi risgiau yw'r broses o gydnabod a dogfennu risgiau posibl a allai effeithio ar gyflawni amcanion y Cyngor.

- 1 Mae gan y Cyngor fframwaith cyfredol ar gyfer rheoli risg.** Mae ei Strategaeth Rheoli Risg Busnes yn nodi pwysigrwydd integreiddio rheoli risg busnes yn llawn i ddiwylliant ac arferion gwaith y Cyngor er mwyn ei helpu i gyflawni ei amcanion corfforaethol yn llwyddiannus. Mae system ddigidol newydd y Cyngor yn rhoi platform i gefnogi cydweddu'n glir bygythiadau a chyfleoedd, ac amcanion strategol. Mae dangos sut mae rheoli risg yn cyd-fynd ag amcanion strategol yn bwysig gan ei fod yn helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon i gyflawni nodau strategol wrth liniaru bygythiadau posibl a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.
- 2 Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn cynnwys nodi cyfleoedd.** Mae un cyfle wedi'i restru ar ei gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r agwedd gadarnhaol hon ar ei drefniadau trwy nodi cyfleoedd eraill, ac mae'n datblygu ei ddull gweithredu i ddod o hyd i ddulliau gweithredu mwy rhagweithiol ac ataliol o ran risg ac arbedion cyllidebol.
- 3 Mae'r Cyngor yn ymgymryd â sganio'r gorwel.³** Mae sganio'r gorwel yn cael ei gynnal gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr corfforaethol ac mae'n cael ei ystyried gan y Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol. Mae risgiau hefyd yn cael eu trafod gan gyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth yn flynyddol trwy'r broses gynllunio Archwilio Mewnol flynyddol. Mae sicrhau dull gweithredu cyson o nodi risgiau a chyfleoedd ar draws gorwel mwy tymor hir, yn bwysig i helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gydag effeithiau tymor byr a hirdymor mewn golwg.
- 4 Mae gan y Cyngor ddull gweithredu clir a chyson o ran sut mae'n diffinio ei risgiau.** Mae'r Cyngor yn dilyn y fformat 'os' (achos) ac 'yna' (canlyniad) yn gyson o fewn y gofrestr gorfforaethol. Mae diffinio risgiau yn glir yn bwysig er mwyn creu dealltwriaeth ar y cyd o'r achos sylfaenol ac i gefnogi'r broses o nodi'r camau rheoli neu liniaru priodol.

³ Mae sganio'r gorwel yn barhaus a deinamig yn helpu'r sefydliad i ystyried senarios a allai gyflwyno risgiau a chyfleoedd sy'n datblygu

- 5 **Nid yw'r Cyngor yn gwahaniaethu rhwng risgiau a materion yn ei gofrestr risg.** Mae risgiau a materion⁴ yn gofyn am ymatebion gwahanol. Byddai mwy o eglurder ar y gwahaniaeth yn helpu'r Cyngor i sicrhau ymateb effeithiol, gweithredu rheolaethau i atal neu leihau'r tebygolrwydd o risg yn digwydd, neu sefydlu lliniariadau i leihau effaith mater ar ôl iddo ddigwydd eisoes.
- 6 **Mae gan y Cyngor ddiwylliant sy'n helpu i gefnogi ei reoli risg.** Mae'r Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol yn cynnwys y Prif Weithredwr, uwch swyddogion eraill, yr Aelod Cabinet sy'n Hyrwyddwr Risg yr Aelodau a Chadeirydd GAC. Disgrifiodd swyddogion ac aelodau y buom yn siarad â nhw fforwm lle darperir trafodaeth agored a her ynghylch risg. Mae hyn yn bwysig wrth hyrwyddo dull rhagweithiol o adnabod a rheoli risg.

Rheoli risgiau

Mae rheoli risgiau yn golygu asesu ac ymdrin â risgiau a materion posibl a allai effeithio ar amcanion y Cyngor. Mae'n cynnwys gwerthuso tebygolrwydd ac effaith bosibl a datblygu a gweithredu rheolaethau effeithiol a chamau lliniaru.

- 7 **Gallai'r Cyngor wella'i drefniadau eto trwy asesu effeithiau ei risgiau'n systematig.** Mae risgiau yn cael eu hasesu gan swyddogion gan ddefnyddio eu gwybodaeth broffesiynol ac unrhyw ddata gwasanaeth sydd ar gael, ac yna maent yn cael eu hadolygu ar y cyd yn y Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol. Mae'r Cyngor yn cryfhau ei ddull gweithredu o ran sgorio risgiau a'u rheolaethau trwy weithredu system rheoli risg newydd. Gallai wella hyn trwy ystyried defnyddio offer dadansoddi risgiau'n helaethach i gefnogi ei asesiadau a'i werthuso o effaith ei risgiau.
- 8 **Nid yw swyddogion ac Aelodau yn deall lefelau parodrwydd i dderbyn a goddef risgiau'r Cyngor yn dda⁵ nac yn eu defnyddio'n effeithiol.** Mae'r Cyngor yn nodi y dylai parodrwydd i dderbyn risg fod wrth wraidd y strategaeth ac mai goddefgarwch risg yw'r lefel absoliwt o risg y bydd y Cyngor yn gweithredu ynddi. Fodd bynnag, fe wnaethom weld ddiffyg cysondeb wrth ddefnyddio hyn, er gwaethaf hyfforddiant gorfodol i'r holl staff mewn rheoli risgiau. Mae nifer o risgiau y tu allan i'r lefelau goddefgarwch y cytunwyd arnynt ac nid yw'r camau lliniaru a'r rheolaethau arfaethedig yn dod â nhw o fewn lefelau goddefgarwch datganedig. Bydd mynegiant o barodrwydd i dderbyn a goddef risg sy'n cael ei deall ar draws y Cyngor yn gosod paramedrau i unigolion weithredu ynddynt ac yn galluogi cymryd

⁴ Mae risg yn ddigwyddiad posibl yn y dyfodol. Mae'n rhywbeth a allai ddigwydd, ond nid yw wedi digwydd eto. Mae problem yn broblem sydd eisoes wedi digwydd neu sy'n digwydd ar hyn o bryd.

⁵ Diffinnir parodrwydd i dderbyn risg fel y maint a'r math o risg y mae'r Cyngor yn fodlon mynd ar ei ôl, ei gadw neu'i gymryd. Lefelau goddefgarwch yw'r lefelau risg y mae'n nod gan y Cyngor i weithredu ynddynt.

risg sy'n cefnogi cyflawni amcanion strategol. Heb hyn, gallai'r Cyngor fod yn agored i fwy o risg nag yr oedd yn ei fwriadu.

- 9 **Nid oes gan y Cyngor feini prawf clir ar gyfer pennu uwchgyfeirio nac isgyfeirio risg.** Mae Strategaeth Rheoli Risg Busnes y Cyngor yn nodi y bydd yn adrodd risgiau bob chwarter trwy'r Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol, lle mae risgiau'n cael eu huwchgyfeirio/isgyfeirio yn unol â gofynion. Mae dull gweithredu'r Cyngor yn pwysleisio pwysigrwydd bod y proffil risg yn fyw a bod swyddogion yn adrodd ar risgiau ac yn eu huwchgyfeirio mor aml ag sydd yn ofynnol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw eglurhad na meintoli arall i gefnogi swyddogion i wneud penderfyniadau ar uwchgyfeirio ac isgyfeirio. Mae meini prawf a rhesymegau clir ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio risg yn bwysig i gefnogi trefniadau mwy effeithlon ac effeithiol.
- 10 **Nid yw dull y Cyngor o reoli risg wedi'i integreiddio'n ddigonol.** Mae perchnogaeth adrannol ar y cyd o risgiau trawsbynciol ond nid yw'r Cyngor yn dangos ystyried effaith gyfanredol y risgiau ar ei gofrestr risg i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae cymryd dull integredig o reoli risg yn helpu i nodi risgiau rhyng-gysylltiedig, gwendidau posibl a chyfleoedd ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell a lliniaru risg.
- 11 **Nid yw'r Cyngor yn adolygu gwybodaeth risg partneriaid cyflenwi allweddol yn systematig.** Gall cyfarwyddiaethau nodi risgiau partner cyflenwi a chyflwyno gwybodaeth i'r Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol wrth iddi godi. Mae risgiau hefyd yn cael eu hystyried mewn fforymau partneriaeth e.e. y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn ystyried risgiau sefydliadau partner yn gyfannol. Yn aml, mae gan risgiau effeithiau trawsbynciol sy'n ymestyn ar draws ffiniau sefydliadol. Byddai adnabod risgiau ar y cyd gan bartneriaid cyflenwi allweddol yn rhoi gwelededd strategol o risgiau a chyfleoedd posibl ac yn helpu i osgoi canlyniadau anfwriadol.

Monitro ac adrodd ar risgiau

Mae monitro risg yn helpu i asesu effeithiolrwydd trin risg y Cyngor. Dylai monitro gefnogi'r ddealltwriaeth o ran a yw'r proffil risg yn newid, sut, ac i ba raddau y mae rheolaethau mewnol yn gweithredu fel y bwriadwyd i roi sicrwydd dros reoli risgiau i lefel dderbyniol wrth gyflawni amcanion sefydliadol.⁶

Mae adrodd ar wybodaeth am risgiau sy'n amserol, yn gywir ac yn berthnasol yn bwysig i wella ansawdd gwneud penderfyniadau effeithiol yn seiliedig ar risg ac i gefnogi'r gwaith o reoli a goruchwyllo trefniadau risg y Cyngor.

⁶ Llywodraeth y DU (2023) Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau

- 12 **Mae'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd ar reoli risg, ond nid yw camau risg bob amser yn gyfredol, yn SMART⁷ neu wedi'u costio.** Mae adrodd yn rheolaidd ar risgiau i'r Grŵp rheoli risg Corfforaethol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Fodd bynnag, nid yw camau risg bob amser yn gyfredol, yn SMART neu wedi'u costio. Mae system rheoli risg newydd y Cyngor yn darparu llwyfan i asesu effeithiolrwydd y camau rheoli sy'n cael eu cymryd. Fodd bynnag, ar adeg ein harchwiliad nid oedd y system hon wedi'i hymgorffori'n llawn. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu asesu effeithiolrwydd y camau y mae'n eu cymryd yn llawn, monitro cynnydd yn gywir, na phenderfynu sut orau i ddyrannu adnoddau.
- 13 **Mae'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd ar reoli risg, asesu perfformiad a monitro cyllideb ond nid yw'r adroddiadau hyn wedi'u hintegreiddio'n ddigonol.** Arferai'r Cyngor gyflwyno adroddiad integredig i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd yn ymdrin â gwybodaeth am risg, perfformiad a chyllideb. Cafodd hyn ei atal oherwydd barnwyd bod yr adroddiad wedi mynd yn rhy gymhleth. Erbyn hyn. Mae'r Cyngor yn adrodd bob chwarter i'r Cabinet gyda thri adroddiad ar wahân (y gofrestr risg gorfforaethol, y cerdyn sgorio perfformiad corfforaethol, a monitro'r gyllideb). Er bod y tri adroddiad hyn wedi'u cynnwys ar yr un agenda ar gyfer y Cabinet, maent yn cael eu cyflwyno fel eitemau ar wahân. Nid oes dadansoddiad integredig sy'n dwyn at ei gilydd y negeseuon / materion allweddol o'r tri adroddiad hyn. Felly, mae potensial na fydd y dolenni ar draws yr wybodaeth sy'n cael eu darparu yn cael eu codi a'u hamlygu i Aelodau i alluogi gwell dealltwriaeth o'r darlun cyfansawdd.

Adolygu ei drefniadau

Mae adolygu trefniadau yn cynnwys gwerthuso trefniadau rheoli risg y Cyngor yn systematig i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion, darparu gwerth am arian a nodi meysydd i'w gwella.

Mae gwersi a ddysgwyd yn cyfeirio at y ddealltwriaeth a'r wybodaeth a gafwyd o ddefnyddio trefniadau rheoli risg y Cyngor a sicrhau bod y rhain yn cael eu dogfennu a'u hadolygu i ysgogi gwelliant.

- 14 **Mae'r Cyngor wedi adolygu ei drefniadau rheoli risg wrth ddiweddarau ei fframwaith rheoli risg.** Mae'n archwilio'r posibilrwydd o gynnal asesiad cymheiriaid aeddfedrwydd risg gyda sefydliadau eraill. Fodd bynnag, nid oes ganddo system ffurfiol ar waith i werthuso'r gwerth y mae ei drefniadau rheoli risg yn ei ddarparu. Mae hyn yn bwysig i ddeall sut mae'r trefniadau hynny'n helpu i ddarparu gwerth am arian.
- 15 **Nid yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgwyd o'i drefniadau rheoli risg yn rheolaidd.** Mae hyn yn golygu y gall y Cyngor golli cyfleoedd i ddysgu o

⁷ SMART – penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol.

lwyddiannau a methiannau, i gefnogi gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ac o bosibl, gwella ymdrechion lliniaru risg mewn gweithgareddau yn y dyfodol.

Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Argymhellion
A1 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer nodi risgiau a chyfleoedd corfforaethol. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gwneud y canlynol: 1.1 sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar ei drefniadau rheoli risg drwy ddatblygu ei gofrestr cyfleoedd ymhellach (paragraff 2); 1.2 gwahaniaethu'n glir rhwng materion (pethau sy'n digwydd nawr) a risgiau (pethau a allai ddigwydd yn y dyfodol) er mwyn sicrhau bod y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth (paragraff 5).
A2 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor wneud y canlynol: 2.1 datblygu trefniadau ymhellach i asesu effeithiau risgiau yn systematig, gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol a dibynadwy (paragraff 7); 2.2 sicrhau bod swyddogion ac Aelodau perthnasol yn deall ei barodrwydd i dderbyn a goddef risg, a gwerth a defnydd y rhain o ran eu trefniadau rheoli risg (paragraff 8); 2.3 sefydlu meini prawf clir i lywio penderfyniadau o ran uwchgyfeirio ac isgyfeirio risg, a sicrhau bod y rhain yn cael eu deall gan swyddogion ac Aelodau perthnasol (paragraff 9); a 2.4 dangos ei ddealltwriaeth o'r rhyngberthynas rhwng ei risgiau ei hun a risgiau ei bartneriaid i sicrhau bod y camau rheoli y mae'n eu cymryd yn briodol (paragraff 10 ac 11).
A3 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella yn nhrefniadau'r Cyngor i fonitro ac adrodd ar risgiau. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

Argymhellion

- 3.1 mynegi'r camau y mae'n eu cymryd i reoli risgiau gan sicrhau eu bod yn gymesur SMART ac wedi'u costio fel ei fod yn gallu asesu effaith a chanlyniadau'r lliniariadau (**paragraff 12**); a
- 3.2 adroddiad mewn ffordd fel bod Aelodau'n cael darlun cyffredinol o reoli risg, perfformiad a monitro cyllideb (**paragraff 13**).

A4 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella yn null gweithredu'r Cyngor o ran **adolygu ei drefniadau** rheoli risg. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

- 4.1 gwerthuso ac adrodd yn rheolaidd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg (**paragraff 14**); a
- 4.2 rhannu gwersi a ddysgwyd i wella ei drefniadau rheoli risg yn rheolaidd (**paragraff 15**).

Atodiad 1

Cwmpas a dulliau

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn oedd:

- helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a
- helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Sail gyfreithiol

Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau a gynhwysir yn Adran 17 2(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom ymgymryd â'r archwiliad

Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn rhwng Chwefror a Mai 2025, trwy:

- adolygu dogfennau perthnasol, er enghraifft, papurau strategaeth rheoli risg, canllawiau i Aelodau, a deunyddiau hyfforddi;
- arsylwi sampl o gyfarfodydd pwyllgorau llywodraethu ac archwilio; a
- cynnal cyfweiliadau â swyddogion allweddol a'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am reoli risg.

Mae ein canfyddiadau wedi'u cyfyngu i'n dadansoddiad o'r wybodaeth uchod.

Atodiad 2

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiwn cyffredinol : A oes gan y Cyngor drefniadau rheoli risg priodol sy'n cefnogi cyflawni ei amcanion strategol?

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
1. A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg clir wedi'i gefnogi gan ddiwylliant rheoli risg effeithiol?	1.1 A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg cynhwysfawr sy'n gydnaws â'i amcanion strategol?	• Mae fframwaith rheoli risg y Cyngor yn nodi: – Rolau a chyfrifoldebau – Gofynion adrodd a monitro – Trefniadau llywodraethu – Amserlen ar gyfer diweddariadau'r gofrestr risg – Proses uwchgyfeirio ac isgyfeirio risg; ac – Yn gyffredol (h.y. heb fod y tu hwnt i'w ddyddiad adolygu penodedig)
	1.2 A oes gan y Cyngor ddiwylliant rheoli risg effeithiol?	• Mae uwch-arweinwyr yn canolbwyntio ar bwysigrwydd rheoli risg yn y Cyngor. • Mae'r Cyngor yn ystyried rheoli risg fel rhan annatod o sut mae'r Cyngor yn gweithredu. • Mae uwch arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant sy'n annog deialog agored ynghylch risg.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
		• Mae trefniadau llywodraethu a goruchwyllo'r Cyngor yn cynnwys rheoli risg. • Mae aelodau a swyddogion wedi cael hyfforddiant mewn rheoli risg sy'n berthnasol i'w rôl. • Mae gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth glir o'u rôl o fewn y fframwaith rheoli risg. • Mae diwylliant y Cyngor yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol.
	1.3 A yw'r Cyngor wedi diffinio ei lefelau parodrwydd i dderbyn a goddef risg yn glir?	• Mae'r Cyngor yn mynegi ei lefelau o barodrwydd i dderbyn a goddef risg yn glir. • Mae parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn cyd-fynd â'i uchelgeisiau strategol. • Mae'r Cyngor yn seilio ei lefelau parodrwydd i dderbyn a goddef risg ar wybodaeth berthnasol a chywir. • Mae'r Cyngor yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg i adlewyrchu newidiadau perthnasol ac arwyddocaol i'r amgylchedd mewnol ac allanol.
	1.4 A yw'r Cyngor yn mabwysiadu dull gweithredu hirdymor at reoli risg?	• Mae'r Cyngor yn ymgymryd â sganio'r gorwel i nodi risgiau sy'n datblygu a bygythiadau yn y dyfodol yn ogystal â chyflleoedd. • Gall y Cyngor ddangos sut mae ei sganio'r gorwel yn dylanwadu ar ei reolaeth o risg. • Mae'r Cyngor yn defnyddio dull gweithredu ataliol ar gyfer risg, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.
2. A yw'r Cyngor yn nodi, rheoli, monitro a herio ei risgiau yn effeithiol?	2.1 A yw'r Cyngor yn nodi ac yn asesu effeithiau risg yn drylwyr?	• Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i asesu a gwerthuso risg (dadansoddeg risg, deallusrwydd artiffisial, modelu risg, dadansoddi senarios a sensitifrwydd, a phrofi straen). • Mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth/data dibynadwy i asesu maint, tebygolrwydd ac effaith bosibl risgiau.

Cwestiynau Lefel 2

Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
	• Mae risgiau yn adlewyrchu risgiau sylweddol i gyflawni'r amcanion llesiant a'r nodau strategol
2.2 A oes gan y Cyngor ddull rheoli cyfannol ar gyfer rheoli risg?	• Mae'r Cyngor yn mapio rhyng-ddibyniaethau a chysylltiadau ar gyfer risgiau trawsbynciol . • Mae'r Cyngor yn nodi ac yn asesu effaith gyfanredol risg ar draws y sefydliad. • Mae'r Cyngor yn nodi gwybodaeth am risg gan bartneriaid cyflenwi allweddol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill ac yn ystyried sut y gallai'r risgiau hyn effeithio ar gyflawni ei amcanion strategol a amcanion ei bartneriaid. • Mae'r Cyngor yn asesu amrywiaeth o effeithiau a chanlyniadau ar gyfer risgiau o fewn reolaeth y Cyngor a'r tu hwnt iddi.
2.3 A yw trefniadau'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod camau digonol yn cael eu cymryd i ymdrin â risgiau?	• Mae perchnogaeth dros risgiau'r Cyngor a'i atebolrwydd amdanynt yn glir. • Mae ymatebion i risgiau a gweithredoedd risgiau'n glir ac yn cyd-fynd â pharodrwydd i dderbyn a goddef risg y Cyngor ac yn cael eu costio. • Mae camau risg yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. • Mae camau lliniaru yn cael eu hasesu am eu heffeithiolrwydd wrth newid cyfraddau risg. • Mae meini prawf clir ar gyfer risgiau uwchgyfeirio/isgyfeirio a thrywydd archwilio clir.
2.4 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar reoli risg yn rheolaidd?	• Mae'r Cyngor yn defnyddio sgorio/asesiadau ystyrlon i gefnogi monitro ac adrodd ar risgiau. • Mae cofrestrau risg yn gynhwysfawr ac yn gyfredol. • Gall y Cyngor fynegi yn glir pam mae risgiau ar y gofrestr neu ble nad ydynt, mae hyn yn cael ei esbonio a'i ddogfennu'n glir.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
		• Mae uwch-arweinwyr yn adolygu risgiau yn rheolaidd ac yn amserol • Mae aelodau etholedig yn cael adroddiadau risg mewn ffordd amserol, dryloyw a chywir. • Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) yn darparu goruchwyliaeth a her effeithiol i'r wybodaeth risg
3. A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg?	3.1 A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg yn rheolaidd?	• Mae'r Cyngor yn gwerthuso ei drefniadau rheoli risg ac yn nodi bylchau a meysydd i'w datblygu, gan gynnwys meincnodi yn erbyn arferion sefydliadau eraill. • Mae'r Cyngor yn ystyried gwerth am arian ei drefniadau rheoli risg.
	3.2 A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd i wella ei drefniadau rheoli risg yn rheolaidd?	• Mae'r Cyngor yn nodi ac yn rhannu gwersi sydd wedi'u dysgu ac arferion da ynghylch rheoli risg ar draws y Cyngor.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg. We welcome
correspondence in Welsh and English.